***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2004 Rhif 1732 (Cy.175)

# PLANT A PHOBL IFANC, CYMRU

## Rheoliadau Plant (Ymadael â Gofal) (Cymru) (Diwygio) 2004

| | | |
|---|---|---|
| *Wedi'u gwneud* | - - | *6 Gorffennaf 2004* |
| *Yn dod i rym* | - - | *23 Gorffennaf 2004* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 23A(3) a 10(4) o Ddeddf Plant 1989(**1**), drwy hyn yn gwneud y rheoliadau canlynol:

### Enwi, cychwyn, dehongli a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Plant (Ymadael â Gofal) (Cymru) (Diwygio) 2004.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 23 Gorffennaf 2004.

(3) Yn y Rheoliadau hyn ystyr "y Prif Reoliadau" ("*the Principal Regulations*") yw Rheoliadau Plant (Ymadael â Gofal) (Cymru) 2001(**2**).

(4) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru yn unig.

### Diwygio rheoliad paragraff 4 o'r Prif Reoliadau

**2.**—(1) Ym mharagraff 4(2) o'r Prif Reoliadau, ar ddechrau'r frawddeg, ac o flaen y geiriau "unrhyw blentyn", mewnosoder y geiriau "Yn ddarostyngedig i baragraff (2A),".

(2) Yn Rheoliad 4 o'r Prif Reoliadau ar ôl paragraff (2), mewnosoder y paragraff canlynol—

> "(2A) Wrth gyfrifo'r cyfnod o 13 wythnos y cyfeirir atynt yn is-baragraff (2)(b), ni ddylid ystyried unrhyw gyfnod pan oedd y plentyn yn derbyn gofal mewn cyfres o leoliadau tymor byr nad yw'r un ohonynt yn fwy na phedair wythnos, os dychwelodd y plentyn, ar ddiwedd pob lleoliad o'r fath, i ofal ei riant, neu berson nad yw'n rhiant ond bod ganddo gyfrifoldeb rhiant drosto.".

(**1**) 1989 p.41. Mewnosodwyd Adran 23A gan Ddeddf Plant (Ymadael â Gofal) 2000 (p.35). Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan y darpariaethau hyn i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn rhinwedd erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac adran 8(7) o Ddeddf 2000.

(**2**) O.S. 2001/2189 (Cy. 151).

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**3**)

*D. Elis-Thomas*
Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

6 Gorffennaf 2004

(**3**) 1998 p.38.

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud mân ddiwygiad i Reoliadau Plant (Ymadael â Gofal) (Cymru) 2001 ("y Prif Reoliadau").

Mae'r Prif Reoliadau yn rhagnodi categorïau ychwanegol penodol o blant a phobl ifanc y mae'n rhaid i awdurdodau lleol ddarparu gwasanaethau ar eu cyfer a chategorïau penodol o blant sy'n cael eu heithrio o'r cymhwyster ar gyfer y gwasanaethau.

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud mân addasiad i eithrio plant a phobl ifanc penodol o un o'r categorïau ychwanegol. Mae'r plant hyn yn blant a fyddai'n gymwys fel "plant perthnasol" (yn ôl y diffiniad o "relevant children" yn adran 23A o Ddeddf Plant 1989) am eu bod yn yr ysbyty neu'n cael eu dal wrth gyrraedd 16 oed ac ar ôl cael cyfnod cymwys yn cael eu lletya gan awdurdod lleol, ond bod y cyfnod cymwys yn cael ei gyflawni'n gyfan gwbl o leoliadau byr pan oedd y plentyn yn dychwelyd adref ar ôl iddynt ddigwydd.